www.bobkilmister.mycouncillor.org.uk
Bobkilmister@aol.com

Welsh Liberal Democrats
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

# Ffocws

Cynghorwr Sir
Bob Kilmister
Fagwyr Einon
Llanychaer
SA65 9SP.
Tel 01348 875566

Eich Cynghorydd Yn Cadw mewn Cysylltiad.

***TAFLEN NEWYDDION EICH TÎM DEMOCRATIAID RHYDDFRYDOL FFOCWS.***
CANOLFAN GYNGHORI AR GAEL 7 DIWRNOD YR WYTHNOS
FFONIO 875566. ***YMA I HELPU'R HOLL CYMDEITHAS.***

**Rhifyn 18**
**Mehefin 09**

## Cynllun Lleol Newydd y Pac

Llawer o ddiolch i'r rhai hynny ohonoch a drodd i fyny i'r Cyfarfod Cyhoeddus a drefnwyd gan y Cyngor Cymunedol a Bob Kilmister yng Nghwm Gwaun. Roedd yn gynulliad ffantastig ac roedd hi'n gymorth mawr iawn cael clywed eich barn. Wedi hynny, paratôdd Bob a'r Cyngor Cymunedol gyflwyniad ar y cyd i'r Parc Cenedlaethol, a gellir ei ddarllen yn www.bobkilmister.mycouncillor.org.uk. Os hoffech chi gopi, da chi gofynnwch ac mi ddanfonaf un i chi.

**Eon cynigion allweddol oedd**:

- ✓ *Tai fforddiadwy i'w hadeiladu gan ddefnyddio adeiladau fferm nad oes eu hangen bellach neu adfeilion. Ar hyn o bryd, dim ond ar gyfer busnes neu dwristiaeth y gellir defnyddio'r rhain.*
- ✓ *Dylid darparu maes parcio newydd yn Llanychaer ar gyfer cerddwyr.*

*Mae'r polisi iaith Gymraeg yn wael iawn, a heb dai newydd ar gyfer teuluoedd, bydd yr ysgol yn Llanllwydog yn dod dan bwysedd eithafol. Buasai ei chau yn cael effaith anferthol ar yr iaith Gymraeg a rhaid osgoi cau ar bob cyfrif.*

Bellach, mae'r Parc Cenedlaethol wedi cyhoeddi'r cynigion i gyd, ac mae hi i fyny i unigolion i wneud sylwadau ar y rhain erbyn 29/07/09. Mae ffurflenni ar gael o'r Parc neu cysylltwch â Bob, ac mi wnaiff e ddarparu rhai ar eich cyfer. Unrhyw ymholiadau, a wnewch chi ffonio 875566.

### Cynllun Lleol y Sir

Mae Cyngor Sir Benfro yn paratoi Cynllun Lleol Newydd sy'n rhedeg llawer o fisoedd ar ôl y Parciau Cenedlaethol. Credaf fodd bynnag ei fod yn gynllun gwell. Y prif gynnig yw trosglwyddo mwy o dai i'r ardaloedd gwledig nag yn y cynllun diwethaf.
Credaf fod gael dau gynllun yn Sir Benfro yn gwbl wirion. Credaf fod cael dau awdurdod cynllunio yn wastraff llwyr o arian. Mewn rhai lleoedd mae rheoliadau gwahanol yn gymwys ar gyfer y naill ochr o'r un heol. **Beth Ydych Chi'n Ei Feddwl?**

## Bettws Newydd



Mynychodd Bob Kilmister gyfarfod Pwyllgor Datblygu'r Parc Cenedlaethol fel ymwelydd lle gwnaethant benderfynu o 10 pleidlais i 6 i gymeradwyo'r adeiladu hwn. Mae'n hyllbeth ac er bod yr adeilad wedi'i adeiladu yn sylfaenol i'r fanyleb, mae'r "slab concrid" o leiaf 1.5 yn uwch na'r hyn a gynlluniwyd. Fodd bynnag, cymeradwyodd y Parc Cenedlaethol y slab a oedd hefyd wedi distrywio gwlypdir. Buasai Bob Kilmister yn hoffi gweld y Parc Cenedlaethol yn colli eu pwerau cynllunio. "Maent yn gwango anetholedig sydd heb unrhyw fandad i benderfynu beth ddylai ddigwydd yn ein cymunedau", dywedodd Bob. **Ydych chi'n cytuno?**
A wnewch chi bleidleisio ar wefan Bob www.bobkilmister.mycouncillor.org.uk

***FFOCWS YN GWEITHIO GYDOL Y FLWYDDYN NID DIM OND ADEG ETHOLIAD.***

**Eich Cynghorydd Yn Cadw mewn Cysylltiad**

Adroddiad Blynyddol Bob Kilmister

## EURAIDD YW TAWELWCH?

Yng Nghyfarfod Llawn diwethaf y Cyngor, cynigiodd Bob Kilmister y dylai Cynghorwyr fod â'r hawl i annerch y Cabinet os oeddent yn ystyried eu Rhybudd o Gynnig. Ymgais yw Rhybudd o Gynnig i newid Polisi'r Cyngor ar bwnc. Mae'r Cabinet yn cynnwys 10 Cynghorydd Grŵp Politicaidd Annibynnol. Pleidleisiodd y Cyngor 35 i 20i atal hyn rhag digwydd. **Beth ydych chi'n ei feddwl?**

## YMGYNGHORI – NA DIM DIOLCH

Awgrymodd Bob Kilmister trwy Rybudd o Gynnig i'r Cyngor Sir gynnal adolygiad o'i broses ymgynghori gyda thrigolion a sefydliadau, Mae'n anodd credu ond gwrthodwyd hyn am fod y Cynghorwyr yn meddwl fod popeth yn iawn. Trueni ynglŷn â chau Pwll Nofio Tyddewi, Cynlluniau Llyfrgell Wdig ac Aberdaugleddau sydd wedi'u beirniadu mor hallt wedi i'r penderfyniad gael ei wneud ar ôl proses ymgynghori gwael iawn.

**Beth ydych chi'n ei feddwl?**

## ARFER GORAU? DIM YN SIR BENFRO

Cynigiodd Bob Kilmister a Mike Stoddart (Old Grumpy) ill dau, y dylai Cyngor Sir Benfro fabwysiadu'r arfer gorau yn y modd y maent yn penodi Cadair ac Is-Gadeirydd Pwyllgorau Craffu. Fodd bynnag, anghytunodd y Cyngor a gwnaethant bleidleisio yn erbyn hyn. Ar hyn o bryd, mae POB Cadair yn aelod o Grŵp Politicaidd Annibynnol. Mae Pwyllgorau Craffu i fod i adolygu penderfyniadau'r Cabinet. Yn rhyfeddol, nid yw hyn wedi digwydd - Ys gwn i pam? Mae angen craffu go iawn arnom ni. **Beth ydych chi'n ei feddwl?**

## GWEITHGAREDDAU ERAILL

Mae Bob wedi mynychu pob Cyfarfod o'r Cyngor ar wahân i'r Pwyllgor Trwyddedu ar Chwefror 3ydd pan gafodd ei ddal gan yr eira. Mae wedi gofyn 9 cwestiwn ac wedi cyflwyno 6 Rhybudd o Gynnig. Dyma'r nifer mwyaf gan unrhyw gynghorydd. Mae wedi mynychu cyfarfodydd o'r Cyngor Cymunedol yn y 3 ardal y mae'n eu cwmpasu. Talwyd £11,466.15 yn ystod y flwyddyn sy'n gorffen 05/04/09. Hawliodd ar gyfer 744 milltir a gostiodd £372.00. Mae'n gobeithio eich bod yn teimlo ei fod wedi cynrychioli'r ardal yn dda ers i chi ei ethol e.

**Bob Kilmister a'r Dem Rhydd yn Gweithio'n Galed Drosoch Chi**

## Cynghorydd Cymunedol

Mae gan Gyngor Cymunedol Cas-mael aelod newydd. Dr Peter Lilley yw e, ac edrychaf ymlaen at weithio gydag ef. Mae'r Cyngor Cymunedol yn cynnwys chwe aelod sydd fel arfer yn cwrdd ar ddydd Mercher olaf y mis yn yr ysgol.

## Manion

Haydn Williams yw Cadeirydd newydd Cyngor Cymunedol Cwm Gwaun.
Alison Evans yw Cadeirydd Cyngor Cymunedol Cas-mael.
Mae Cyngor Cymunedol Cwm Gwaun wedi gofyn i Bob Kilmister i ofyn am welliannau i'r ffordd rhwng Llanychaer a'r A487 yn agos i'r bont.
Mae' Cyngor Sir yn mynd i gynnal arolygon cyflymdra yn Tufton a Llanychaer yn y dyfodol agos.
Mae Cyngor Cymunedol Casmael yn danfon adroddiad am bob damwain yn ardal Tufton at y Cyngor Sir. Mae hyn er mwyn amlygu problemau yn y man peryglus hwn. Os ydych chi'n gwybod am unrhyw rai sy'n digwydd, a wnewch chi gysylltu â Bob Kilmister ac mi wnaiff e basio'r manylion ymlaen.

## Ymunwch â'r Tîm

Os ydych chi'n cefnogi Bob Kilmister a Ffocws pa na wnewch chi ymuno â'r tîm? Mae angen cymorth ar Bob gyda dosbarthu taflenni, ac mae e hefyd eisiau ymestyn Ffocws i ardaloedd eraill. Er mwyn gwneud hynny, mae angen cymorth ychwanegol arno. Mae newid ond yn digwydd os gwnewch chi iddo ddigwydd! A wnewch chi e-bostio Bob yn bobkilmister@aol.com neu ffonio 875566 am sgwrs ddiamod.

## Cyngor a Chymorth

Nid yw Bob Kilmister yn cynnal meddygfeydd. Yn lle, mae e'n dod i ymweld â **CHI**. Da chi cysylltwch drwy ffonio 01348 875566 neu drwy e-bost yn bobkilmister@aol.com ac mi wnaiff e drefnu ymweld â chi.

**Eich Cynghorydd Yn Cadw mewn Cysylltiad**

Printed by Tudor Press on behalf of Bob Kilmister all at Liberal Hall St Mary's Street Haverfordwest SA61 2DR